# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-21-2005):

### Dyddiad y Cyfarfod: 20 Medi 2005

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Laura Jones | Dwyrain De Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |

| | |
|---|---|
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl y Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Sara Mansour | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Eleanor Burnham

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-20-2005

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2005.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod cynnig y Pwyllgor i ddiwygio Rheol Sefydlog 11 er mwyn cryfhau'r sefyllfa mewn perthynas â defnyddio iaith ryw-benodol a deddfwriaeth sydd heb ei gwneud yn ddwyieithog wedi'i gymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Gorffennaf a bod y Rheolau Sefydlog wedi'u newid yn unol â hynny.

3.2 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod pryder wedi'i fynegi pan drafodwyd LC1108 - Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005

yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 28 Mehefin, sef pryder y gallai'r analluedd i wrthod yr apêl am fethu â chydymffurfio â chyfarwyddiadau beri anawsterau i'r panel. Gan nad oedd tystiolaeth ynghylch sawl apelydd fyddai'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad, roedd yn amhosibl darganfod a fyddai hyn yn broblem. Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor, roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i dynnu ei sylw at y mater ac i ofyn i'r Pwyllgor gadw llygad ar sut y byddai'r Offeryn Statudol yma'n gweithredu. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod y Pwyllgor Addysg wedi newid eu Blaenraglen Waith yn unol â hyn ac y byddai'r mater yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes drannoeth, ar 21 Medi.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1124 - Rheoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005

LC1125 - Rheoliadau Ffioedd mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2005

LC1127 - Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005

LC1128 - Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005

## Eitem 5: Gohebiaeth y Pwyllgor

5.1 Ymateb y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dr Brian Gibbons AC, i'r llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfau ynghylch Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2005 (LC1105)

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod wedi nodi yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 21 Mehefin fod y Pwyllgor Deddfau wedi awgrymu o'r blaen y dylai ailddeddfiad wedi'i gydgrynhoi gael ei wneud o Reoliadau 1988 ar gyfer Cymru.

5.2 Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor, roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at y Gweinidog i danlinellu'r angen am gydgrynhoad ar fyrder i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch a dealladwy yn y ddwy iaith ac roedd ateb y Gweinidog wedi'i gylchredeg i'r Aelodau. Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i fynegi eu barn o ran a oedden nhw'n fodlon ar safbwynt y Gweinidog neu a fydden nhw'n hoffi mynd â'r mater ymhellach.

5.3 Dywedodd yr Aelodau eu bod yn fodlon ar ateb y Gweinidog. Er hynny, awgrymwyd y dylai'r mater gael ei adolygu ymhen chwe mis i weld a fyddai unrhyw gynnydd gyda'r newidiadau roedd y Gweinidog yn bwriadu eu gwneud. Camau i'w cymryd: Y Clerc

5.4 Llythyr gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Edwina Hart AC, ynghylch Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2005 (LC1084)

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod, yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Mai, wedi ystyried Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2005 (LC1084). Nododd y Pwyllgor lythyr arall oddi wrth y Gweinidog.

## Camau i'w cymryd

5.3 Gofynnwyd i'r Clerc ddarganfod a oedd y newidiadau roedd y Gweinidog yn bwriadu eu gwneud o ran Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2005 (LC1105) wedi mynd yn eu blaen a rhoi gwybod i'r Pwyllgor yn unol â hynny ymhen

chwe mis.

## Eitem 6: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 27 Medi 2005.